**T01 Heledd Fychan, Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru, Grŵp Plaid Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Senedd y Dyfodol** | **Future Senedd Committee**

**Ymchwiliad i'r trothwyon yn y Rheolau Sefydlog** | **Inquiry into Standing Order thresholds**

Ymateb gan: Heledd Fychan, Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru, Grŵp Plaid Cymru - Rheolwr Busnes | Evidence from: Heledd Fychan, Member of the Senedd for South Wales Central, Plaid Cymru Group – Business Manager

Annwyl Gadeirydd,

Parthed: Ymgynghoriad Rheolau Sefydlog

Diolch am y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Senedd y Dyfodol i lywio ei ystyriaeth o bwynt (c) o'i gylch gwaith, sy'n ymwneud â'r trothwyon a bennir ar hyn o bryd yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

Atodaf safbwyntiau Grŵp Plaid Cymru ar yr ystod o Reolau Sefydlog dan sylw. Ble nad ydi'r Grŵp yn datgan barn, rydym wedi hepgor y Rheolau hynny o'r ymateb.

Gobeithiaf y bydd y mewnbwn o ddefnydd wrth i'r Pwyllgor barhau i drafod yr ystyriaethau pwysig hyn ar gyfer llywio gweithdrefnau'r Seithfed Senedd.

Yn gywir,

Heledd Fychan

Rheolwr Busnes Grŵp Plaid Cymru

## Grwpiau gwleidyddol (Rheol Sefydlog 1.3);

Mae Grŵp Plaid Cymru o'r farn y dylai'r Rheol Sefydlog ar gyfer maint Grwpiau gwleidyddol warchod llais pleidiau llai a sicrhau chwarae teg i bob Aelod o'r Senedd. Byddai cynyddu'r trothwy yn sylweddol yn anghymesur ac yn tanseilio'r egwyddor bwysig hon.

Byddem felly yn ffafrio trothwy o bump neu chwech ar gyfer ffurfio Grŵp gwleidyddol o safbwynt derbyn cefnogaeth gyllidol ychwanegol i weithredu fel grŵp.

Credwn y dylid rhoi ystyriaeth i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno trothwy gwahanol ar gyfer breintiau siarad, gyda'r trothwy hwnnw yn is er mwyn sicrhau fod yr ystod llawn o leisiau gwahanol yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodion.

Rydym o'r farn na ddylai unrhyw benderfyniad terfynol ynglŷn â dehongli'r Rheol Sefydlog hon eistedd gyda'r Llywydd yn unig a/neu dylid sicrhau nad oes amwysedd allai beri fod y Llywydd mewn sefyllfa o orfod gwneud penderfyniad ar fympwy.  Dylid edrych eto ar gymal (ii) o'r Rheol Sefydlog sydd yn rhoi baich a chyfrifoldeb annheg ar y Llywydd fel unigolyn.

## Ymddiswyddo neu Ddiswyddo o ran y Llywydd neu'r Dirprwy (Rheol Sefydlog 6.26);

Mae'r Grŵp o'r farn fod trothwy o 10% (h.y. 10 Aelod) yn addas a rhesymol o ran trafod cynnig i ddiswyddo Llywydd neu Dirprwy Lywydd.

Nid ydym o'r farn fod yn rhaid i'r 10 Aelod fod o ddwy blaid wahanol. E.e. gyda threfn gyfrannol newydd, mae'n bosib mai dim ond un gwrthblaid fyddai'n cyrraedd trothwy grŵp yn Seneddau'r dyfodol.

## Ymddiswyddiad etc. Prif Weinidog Cymru neu Aelod arall o'r Llywodraeth (Rheol Sefydlog 8.7);

*Gweler ein safbwynt ar Reol Sefydlog 6.26.*

Ymhellach, ar faterion o hyder (boed hynny mewn unigolion neu lywodraeth gyfan), dylid adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfaoedd hyn yn y Rheolau Sefydlog gan ganiatáu i unrhyw gynnig sydd yn cyrraedd y trothwy gael ei drafod ar y cyfle cyntaf posib yn y Cyfarfod Llawn.

### Cynigion gweithdrefnol (Rheol Sefydlog 12.33);

Credwn y dylai'r Rheol bresennol aros fel ag y mae yn gymesur a'r nifer newydd o Aelodau (h.y. dylid cael 16 Aelod o blaid symud i bleidlais ar unwaith). Dylid gwarchod y cymal sy'n rhoi ystyriaeth i hawliau lleiafrifoedd o fewn y Senedd.

### Penderfyniadau ar gynigion a gwelliannau (Rheolau Sefydlog 12.44 a 12.46);

Credwn y dylai'r trothwy ar gyfer y ddwy Reol hyn gynyddu yn gymesur (h.y. un chweched o'r holl Aelodau).

### Cworwm (Rheol Sefydlog 17.31);

Byddem yn ffafrio peidio addasu'r Rheol Sefydlog hon.

### Aelodaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 18.5);

Byddem yn ffafrio peidio addasu'r Rheol Sefydlog hon.

### Ail-wneud y Rheolau Sefydlog a'u Diwygio (Rheol Sefydlog 33.1).

Credwn y dylid cynyddu'r trothwy hwn ar gyfer gofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried ac adrodd ar unrhyw gynnig i ail-wneud a diwygio'r Rheolau Sefydlog yn gymesur (h.y. i 10% sef 10 Aelod).

Wedi eu hepgor:

- Diswyddo (Rheol Sefydlog 10.8)
- Cynigion am Orchymyn gan Aelod, heblaw aelod o'r llywodraeth (Rheol Sefydlog 25.28).